# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

Medi 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 12

## Y Sioe Flodau a Chynnyrch





Cafwyd sioe aruthrol o lwyddiannus eto eleni – y canlyniadau a lluniau ar dudalennau 4 a 5




Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at yr achos hwn. Codwyd £708 mewn pedair awr ddydd Gwener, 1 Awst, a thrwy ragor o gyfraniadau hael, cyrhaeddwyd cyfanswm o £1000.

Codwyd £475 arall tuag at Hosbis St Cyndeyrn, sy'n anhygoel, ddim ond bythefnos ar ôl hyn. Diolch eto o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi.

30 1995 2025 PENBLWYDD ANNIVERSARY
St. Kentigern Hospice

# Llais Llandyrnog yn 10 oed

Ydy wir, mae'r rhifyn hwn yn ddiwedd degfed flwyddyn *Llais Llandyrnog*. Daeth i fodolaeth oherwydd cymaint o bobl yn dweud nad oedden nhw'n gwybod beth oedd yn digwydd yn y pentre. Y cylchgrawn newyddion cyn y *Llais* oedd y *Village Voice*, golygydd Peter Wilson. Ar ôl ei farwolaeth, daeth y cylchgrawn i ben ac roedd colled fawr ar ei ôl (ac ar ôl Peter, wrth gwrs!)

Cyhoeddwyd rhifyn cynta *Llais Llandyrnog* ym mis Hydref 2015 ac mae wedi datblygu'n aruthrol ers hynny. Y datblygiad gorau, mae'n siŵr, oedd ei argraffu mewn lliw. Dydy'r pris o £1 ddim yn ddigon i dalu'r costau argraffu, ond mae hysbysebion ac ambell fore coffi yn cadw'r trysorydd yn lled fodlon.

I ddathlu ein pen blwydd, bydd y rhifyn nesaf yn dilyn ambell stori a gyhoeddwyd yn y rhifynnau cynnar – mae'n syndod cymaint sydd wedi digwydd mewn 10 mlynedd! Bydd hefyd am ddim.

Bydd rhifyn mis Hydref ar gael mewn bore coffi yn Neuadd y Pentre, ddydd Sadwrn, 27 Medi. Edrychwn ymlaen at eich gweld yno!



## Llais Llandyrnog Voice

Mis Hydref 2015 – Cyfrol 1 – Rhifyn 1

**Llais Llandyrnog Voice** - rydym wedi bod yn disgwyl am hwn ers colli'r *Village Voice*. Tîm newydd – enw newydd a fformat gwahanol. Mae ysbryd y diweddar Olygydd yn dal i fod yn fyw.

Bydd croeso i bob cyfraniad drwy'r bocs yn y siop neu ar e-bost – llandyrnognews@gmail.com. Mae ansawdd a maint Llais Llandyrnog Voice yn dibynnu arnom ni.

Mae llai o newyddion yn golygu llai o dudalennau, rhagor o newyddion yn golygu rhagor o dudalennau. Helpwch ni i wneud i'r cylchgrawn lwyddo fel ein bod unwaith eto yn gwybod beth sy'n digwydd, pryd ac yn lle, ac yn gallu rhannu'n bywyd yn y gymuned gyda'n gilydd.

Diolch yn fawr iawn i'r rheini sydd wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu'r rhifyn cyntaf—edrychwn ymlaen at sawl un eto. Mae'r rhifyn cyntaf hwn am ddim, 75c fydd cost y copïau nesaf a fydd ar werth yn siop y pentref.

Ruth Griffith

Cadeirydd y Cyngor Cymuned

Rhifyn am ddim

Noddwyd gan Gyngor Cymuned Llandyrnog

# Pytiau newyddion

Gwellhad buan i Wil Parry, mab Merfyn, ac i Buddug Foulkes yn dilyn ei chodwm.

Hoffai Margaret Williams Rhiwbebyll Isaf ddiolch o galon am yr holl gardiau a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

Mae Buddug Foulkes yn diolch o galon i bawb am bob arwydd o cydymdeimlad yn sgil colli'i gwr John. Ymddiheuriadau diffuant iawn am beidio â chynnwys y neges hon yn rhifyn diwetha'r *Llais*.

Cydymdeimlwn â Chris Pritchard, Parc Tynllan, ar golli ei brawd, Allan Davies o Swydd Caint; ac â Karen Morris, aelod ffyddlon o bwyllgor y Sioe, ar golli ei mam.


## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1af | Grŵp crefftau | 10am |
| | Trefoil Guild | 2pm |
| Maw 2il | Clwb Llyfrau | 10am |
| | Grŵp cyfeillgarwch | 7–9pm |
| Gwe 5ed | Grŵp cwiltio Cath Boardman | 1.30–3.30pm |
| Llun 8fed | Grŵp crefftau | 10am |
| Mer 10fed | Undeb y Mamau | 2pm |
| Gwe 12fed | Paned a chacen Macmillan | 10am–canol dydd |
| Mon 15fed | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 16eg | Clwb Llyfrau | 10am |
| | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 17eg | Tuesday Club | 2pm |
| Thu 18fed | Gweithdy crefftau | 6–9pm |
| Llun 22ain | Grŵp crefftau | 10am |
| Sad 20fed | Gweithdy crefftau | 9–canol dydd |
| Llun 29ain | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 30ain | Clwb Llyfrau | 10am |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 7fed | 11.15 | Boreol Weddi |
| 14eg | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 21ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 28ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |

Cyngerdd gyda Chôr Meibion Caerwys a cherddorion ifanc lleol

Nos Sadwrn 4 Hydref am 7pm yn Neuadd y Pentre. Tocynnau'n £10, plant am ddim

*Yr elw at Eglwys St Tyrnog*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun 1af | Brownies | 5.30–7pm |
| Mer 3ydd | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 6ed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 8fed | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw 9fed | Pwyllgor y Pony Club | 7–8pm |
| Mer 10fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sul 14eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 15ed | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw 16eg | Pwyllgor y sioe Flodau | 7–8pm |
| Mer 17eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 20fed | Bore coffi – Eisteddfod Llandyrnog | 10am–11.15 |
| Llun 22ain | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Sad 27ain | Bore coffi – *Llais Llandyrnog* | 10am–11.15 |
| Llun 29ain | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog



**Ffrwythau a llysiau:** Yr arddangosyn gorau – Graham Pickles; y nifer mwyaf o bwyntiau – Roger Warner

**Blodau:** Yr arddangosyn gorau – Graham Pickles; y nifer mwyaf o bwyntiau – Graham Pickles

**Trefnu blodau:** Yr arddangosyn gorau a’r nifer mwyaf o bwyntiau – Wendy Grey-Lloyd

**Coginio:** Yr arddangosyn gorau – Mair Edwards; y nifer mwyaf o bwyntiau – Rachel Major

**Pobl ifanc:** Yr arddangosyn gorau – Penny Kinsey; y nifer mwyaf o bwyntiau: Penny Kinsey

**Crefft:** Yr arddangosyn gorau – Edith Hughes; y nifer mwyaf o bwyntiau – Christine Logan

**Ffotograffiaeth:** Yr arddangosyn gorau – Amy Weyman

**Adran oedolion:** Y nifer mwyaf o bwyntiau – Roger Warner; hoff arddangosyn y Llywydd – Edith Hughes; hoff arddangosyn yr Ysgrifennydd: Amy Weyman

**Llywydd y sioe:** Ben Lindquist, Pennaeth Ysgol Bryn Clwyd




*Un enillydd bach wrth ei fodd!*



# Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog: parhad

Wel am ddiwrnod! Bron i 700 o eitemau i'w beirniadu yn y sioe flodau a chynnyrch, cynffonau'n chwifio yn y sioe gŵn, a chymaint o gacennau! Roedd y tywydd yn garedig ac roedd awel braf, a oedd yn gwneud i'r baneri edrych yn wych wrth gyhwfan. Yr awel achubodd y bobl yn y babell fawr rhag toddi yn y gwres mawr.

Roedd crefftau chwech o grefftwyr lleol i'w gweld a'r Gymdeithas Hanes yn llecyn diddorol gyda hen luniau a chyfle i hel atgofion.

Roedd trefnwyr y sioe wrth eu boddau bod cymaint o'n cymdogion o Highfield Park wedi dod i'r cyfnod tawel cyn y sioe. Cafodd y trigolion a'r gweithwyr cymorth gyfle i edmygu'r ffrwythau, y llysiau a'r blodau, a mwynhau'r cacennau, wrth gwrs.

Diwrnod llwyddiannus iawn, diolch i griw gwych o wirfoddolwyr – ni fyddai sioe o gwbl hebddyn nhw. Os oeddech wedi mwynhau'r sioe yn fawr ac y byddech yn hoffi helpu i'w threfnu yn 2026, beth am ymuno â'r pwyllgor? Maen nhw'n griw cyfeillgar a bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

*Jackie Le Fevre*



*Prif enillydd y sioe gŵn*




*Crefftau yn y sioe*



*Arddangosfa'r Gymdeithas Hanes o hen luniau'r pentre*

# Capel y Dyffryn

***Eisteddfod Genedlaethol*** Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, eleni, yn enwedig Nest, Pen y Bryn, 3ydd Llefaru Unigol 12–16 oed;



ac i Gwennan, ei chwaer, (isod yn y canol) yn 2il yn yr Ensemble Lleisiol Agored gydag Ynyr ac Elan.



***Arholiadau TGAU*** Llongyfarchiadau i Efa, Sgubor Wen, ar ei chanlyniadau a phob dymuniad da iddi yn y cam nesaf yn ei haddysg.

**Cyfarchion pen blwydd** i Gwyneth, Bodfan ar ddathlu cyrraedd oed arbennig.


**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

Daeth Beca,Sgubor Efa (ar y dde) a Branwen, Hanna a Georgia yn 3ydd yng nghystadleuaeth, yr Ensemble Lleisiol.



**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 07/09 | 10.00 | Sgwrs a phaned |
| 14/09 | 11.00 | Parch. Andras Iago (Cymun) |
| 21/09 | Pererindod – Waun Goleugoed | |
| 28/09 | 9.45 | Parch. Ifor Ap Gwilym |



# Gair gan yr offeiriad

Yng nghysgod ei gilydd mae'r bobl yn byw, medd hen ddihareb Geltaidd. Meddyliais am honno wrth eistedd mewn gwasanaeth disgyblion a oedd yn gadael yr ysgol. Roedd dagrau yn llygaid pawb. Rhieni, gofalwyr ac athrawon balch yn rhannu'r daith â'r plant sydd yn mynd yn eu blaenau i ysgol arall. Roedd hi'n wych gwrando ar stori'r daith honno, wrth iddyn nhw gyd-gerdded, rhannu profiadau, a ffynnu mewn cymaint o ffyrdd. Hefyd roeddwn yn ymwybodol eu bod wedi blino wrth iddyn nhw deithio at yr oriau olaf hynny o'r flwyddyn ysgol. Gobeithio bod cyfnod o aros, gorffwys ac ac ennill egni, yng nghanol adeg o hwyl ac atgofion.
Pa mor flinedig ydych chi wrth i chi ddarllen hwn?




'Dewch ataf i, bawb sy'n flinderog a llwythog, ac mi roddaf i orffwystra i chi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf,' medd Iesu wrthym. 'Dysgwch gennyf,' mae Iesu yn ein gwahodd ni, 'Ymrwymwch wrthyf i. Cysgodwch fi. Adlewyrchwch fi. Dynwaredwch fi. Dilynwch fi. Gadewch i mi'ch tywys ochr yn ochr â fi, oherwydd rydw i wedi cerdded y ffordd rydych chi'n ei cherdded. Byddwch yn gorffwys eich hunan blinedig, llwythog.' Mae Iesu yn ein gwahodd i ddod at ef, yn union fel yr ydyn ni. Mae'n cydnabod prysurdeb ein bywyd, ein bod yn llafurio ac wedi'n gorlethu ac mae'n ein tynnu ni i mewn i'w bresenoldeb cariadus a thyner. Rydyn ni'n cael ein galw i dreulio cyfnod tawel ar ein pen ein hunain gyda Duw, drwy roi'r pethe electronig sy'n dal ein sylw i'r naill ochr, mynd allan i'r diffeithwch neu i fyny mynydd yn gorfforol neu'n feddyliol, eistedd yn llonydd yn rhywle ddigon tawel i wrando ar lais tawel, llonydd Duw. Os ydych chi'n debyg i fi, mae'n rhy hawdd i chi hael eich dal ym mhrysurdeb bywyd ac anghofio gwneud hyn. Mae anghofio nad oes rhaid i ni gario baich bywyd ein hunain yn rhy hawdd.

**Grist bydd gyda mi, Crist o'm mewn**
**Crist y tu cefn i mi, Crist y tu blaen i mi**
**Crist gerllaw imi, Crist i'm hennill i**
**Crist i'm cysuro a'm hadfywio**
**Crist o danaf Crist, uwch fy mhen**
**Crist mewn llonyddwch, Crist mewn perygl**
**Crist yng nghalonnau pawb sy'n fy ngharu**
**Crist ar wefus ffrind neu ddieithryn.**

Os hoffech chi ddod ataf am sgwrs am unrhyw beth, neu os oes angen help neu gefnogaeth arnoch chi mewn unrhyw ffordd, anfonwch e-bost at samquilty@cinw.org.uk neu ffoniwch fi ar 07546 562816.
Mae croeso i chi gysylltu â fi ar unrhyw adeg.

*Y Parch. Sam*



# Cerdded ar hyd Ffordd y Pererinion – parhad

Mae'r llwybr yn cychwyn yn Abaty Dinas Basing ac yn mynd yn ôl i Drelawnyd – taith ddigon hamddenol o ryw wyth milltir – dim byd heriol iawn.

Sefydlwyd Abaty Dinas Basing yn y 12fed ganrif ac roedd yn berchen ar erwau lawer yn Swydd Derby ond fe adawyd yr abaty yn wag yn dilyn deddf diddymu mynachdai 1536. Mynachdy Sistersaidd oedd hi mae'n debyg – mae'r olion yn werth eu gweld heddiw. Erbyn hyn mae'n rhan o Barc Treftadaeth Maesglas ac mae'r llwybr hamddenol dwy filltir o hyd yn mynd drwy Ddyffryn Maesglas. Mae nifer o byllau gerllaw'r llwybr, pyllau oedd yn pweru melinau i'r nifer o wahanol weithfeydd oedd yn y dyffryn bach diwydiannol yma. Ond erbyn hyn mae'r llynnoedd yn gartref i bob math o adar yn cynnwys elyrch a glas y dorlan – mae'n braf gweld bywyd gwyllt mewn ardal mor drefol.

Mae yna gymaint o fyrddau gwybodaeth ar y llwybr does dim pwynt i mi eu hailadrodd. Mi fuaswn i yn eich annog i barcio yn Nhreffynnon, cerdded i lawr y dyffryn a dal bws yn ôl i fyny – maen nhw'n rhedeg bob hanner awr. I'r rhai heini, ffit, wel ffordd arall amdani – chewch chi ddim eich siomi.

Roedd rhaid i mi dreulio deg munud wrth Ffynnon Gwenffrewi – mae pererinion wedi bod yn dod yma ers 1115 ac yn ôl y sôn dyma'r fan lle ddaru St Beuno atgyfodi ei nith.

Ar ôl cyrraedd Treffynnon rhaid oedd croesi'r A5026 ac wedyn roedd hi'n daith ddigon hawdd fyny rhyw fymryn o allt i gyrraedd Pantasaff.

Mae yna gymysgedd diddorol yma o adeiladau Catholig, Mynachlog Ffransisgaidd ac eglwys Anglicanaidd Dewi Sant.  Mae Ffordd y Groes y tu ôl i'r adeiladau yma yn croesi ar draws y bryn o'r gwaelod i'r pen ucha ac yn cynrychioli siwrnai olaf Crist i Galfaria. Ar bob cornel mae 'gorsafoedd' i'ch atgoffa o'r siwrnai olaf greulon oedd yn ei wynebu gan gario ei groes. Wrth nesáu at y copa a throi'r gornel, mae croes fawr yn eich wynebu – mae'n werth




*Diwedd Ffordd y Groes*

i chi wneud y daith i'w gweld.

Taith ddidrafferth wedyn i Gorsedd i'r dde – tros gamfa a chyrraedd carreg sy'n nobl a hyfryd ond efo rhyw ddiogelwch mawr o'i chwmpas – Maen Achwyfan. Hon ydy'r enghraifft orau bosib yn y wlad 'ma o garreg o dras Geltaidd. Mae tua 3.4m o uchder, o'r 10fed ganrif, ac yn coffáu person neu ddigwyddiad. Wedi ei naddu o un garreg enfawr, mae'r pen crwn arni'n siap olwyn, ac mae cerfiadau cywrain tu hwnt arni. Does neb yn gwybod pam mae'r garreg yma – mae'n ddirgelwch llwyr. Mae'n hawdd iawn i'w ffeindio – ewch syth ar draws cylchfan McDonalds, i lawr am droad Chwitffordd, ac mae hi yn y cae yno efo giât i fynd ati. Unwaith eto mi fuaswn yn eich annog i fynd am dro i'w gweld – mae'n ddigon hawdd parcio gerllaw. Cerwch â phâr o wellingtons rhag ofn bod y cae yn wlyb. Ar ôl gadael Maen Achwyfan Llanasa amdani.

Rhaid oedd treulio chwarter awr yma. Cafodd yr eglwys yma ei chodi ar safle eglwys hŷn o lawer ac mae wedi ei chysegru i Sant

# Cerdded ar hyd Ffordd y Pererinion – parhad



*Maen Achwyfan – sylwch ar y patrymau*

Cyndeyrn a Sant Asaff – talfyriad o Lanasaff ydi Llanasa. Erbyn 1281 roedd holl gynnwys yr hen eglwys wedi ei symud i'r Gadeirlan yn Llanelwy.

Rhaid rŵan oedd anelu am Drelogan a dwi ddim yn ymddiheuro am fynd off y radar braidd ond roedd rhaid i mi ymweld â man geni y tenor gorau welodd Gymru 'rioed – yn fy marn i – David Lloyd.

Cafodd ei eni yn 1912 a gan fod ei rieni wedi ei enwi ar ôl David Lloyd George, roedden nhw yn eu hisymwybod yn gwybod ei fod ar lwybr eitha arbennig.

Erbyn canol yr 1930au a David Lloyd yn ei ugeiniau, roedd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel canwr opera – Bryn Terfel ei ddydd, ond heb yr holl ' glam'. Ei gar pob dydd oedd Morris Minor *split screen*, CCC 818.

Tipyn o gamp i fab i löwr o Drelogan ond roedd yn wyrth bod awydd canu arno o gwbl. Bu farw ei rieni ac yntau'n ddim ond llanc – cafodd ei fam strôc pan oedd hi ddim ond yn 51 oed a bu farw ei dad drwy hunan-laddiad o fewn dwy flynedd – roedd y galar yn ormod iddo.

Tuag at ddiwedd ei yrfa byddai'n canu am ei gartref ei blentyndod hapus yn Nhrelogan, Bryn Siriol, ac am fynwent Picton lle gorwedd ei dad a'i fam ac fel yr oedd yn hiraethu amdanyn nhw, "and when God my soul does keep, that is where I want to sleep." Yr oedd yn canu'r gân gydag arddeliad ac yn cofleidio pob gair cyn eu gollwng yn araf.

Cafodd ddamwain gas adre yn Nhrelogan yn 1954 a threuliodd lawer iawn o amser yn yr ysbyty. Er iddo ailafael yn ei yrfa yn 1960 doedd pethau ddim yr un fath a bu farw mewn ysbyty yn y Rhyl ym mis Mawrth 1969. Cafodd ei wireddu ei ddymuniad o gael gorffwys gyda'i dad a'i fam ym mynwent Picton.

Yn bersonol – a dim ond fy marn i ydi hwn – does neb wedi canu *Lausanne* fel David Lloyd ac mae wedi ei ysgrifennu ar ei garreg fedd, ynghyd ag un o'i ffefrynau eraill, *Hyder*.

Ta waeth, dwi wedi crwydro rŵan, yn'do? Felly dyma ddilyn y llwybr o Fryn Siriol, Trelogan, ac anelu am y Gop sydd digon hawdd i'w weld, ac yn ôl i Drelawnyd.

Os cewch chi gyfle yn wir pe byddech yn mynd i weld Maen Achwyfan, cartref David Lloyd yn Nhrelogan, a mynwent Picton, dyna i chi brynhawn hynod o ddiddorol!

*Bryn Davies*




*David Lloyd a'i Morris bach*

# Morus nigra: Y forwydden

30 mlynedd yn ôl, fel sawl un, doeddwn i erioed wedi blasu eirin morwydd aeddfed – *mulberries*. I ddathlu pen blwydd priodas ryw 23 mlynedd yn ôl, prynais forwydden yn RHS Wisley a'i phlannu ger Llandyrnog.

Mae'r tir 300 troedfedd uwchben lefel y môr, a gosodwyd y goeden ifanc mewn cae nesaf at ffens fel y byddai ganddi digonedd o le i dyfu, gan orchuddio rhan o'r cae a'r lawnt ar ochr arall y ffens. Rhoddwyd weiar netin o gwmpas y goeden i rwystro defaid rhag ei difrodi.

Mae'r goeden mewn tir tywodlyd gydag ychydig o glai a charreg galch a ffurfiwyd o falurion rhewlif ar ôl oes yr iâ. Mae ganddi ychydig o gysgod, er ei bod hi yn wynebu gwyntoedd o'r gogledd, ond yn cysgodi rhag gwyntoedd y gorllewin a'r dwyrain.

Ar ôl rhyw chwe blynedd, dechreuodd y goeden flodeuo. Roedd y tyfiant yn gryf ac erbyn hyn mae hi tua 15 troedfedd o uchder, a chanddi ddiamedr o ryw 20 troedfedd. Mae'r blodau gwyrdd yn newid yn rhai coch ac wedyn bron yn ddu, wrth i'r aeron ddatblygu. Mae'r canghennau braidd yn frau ac mae angen ysgol i hel y ffrwyth oddi ar frig y goeden. Mae gosod yr ysgol yn y lle iawn yn bwysig oherwydd gallai canghennau dorri neu hollti o dan bwysau. Bydd cyffyrddiad ysgafn yn rhyddhau aeron aeddfed o'r coesyn a rhaid bod yn ofalus. Dwi'n defnyddio sosban â dolen hir i gyffwrdd yr aeron yn ysgafn, gan eu hannog nhw i syrthio i mewn iddi.

Dull traddodiadol o gynaeafu yw taenu cynfasau o dan y goeden. Fel arfer mae ffrwythau sydd wedi disgyn ar y cynfasau yn ystod y cyfnod cynaeafau, yn cael eu hel bob dydd. Ond mae'r aeron gwyn, anaeddfed, yn cael eu taflu. Mae'r rheini sydd â gwawr goch yn cael eu hel a byddan nhw'n aeddfedu os ydyn nhw'n cael eu cadw mewn cynhwysydd. Os ydy hi wedi bwrw glaw yn drwm, mae'r aeron yn chwyddo gyda hylif a bydd eich dwylo'n troi'n goch wrth eu hel. Mae sudd hefyd yn rhedeg i waelod y cynhwysydd.

Mae canghennau'r goeden yn cyffwrdd â'r ddaear ac mae hel ffrwythau oddi ar y cynfasau yn waith i'w wneud ar eich pennau gliniau. Rhaid rhoi'r cynfasau yn sownd ar y ddaear gan ddefnyddio briciau neu gerrig trwm, er enghraifft, o gwmpas yr ymylon. Daeth cnwd da o ddanadl poethion tra oedd y defaid yn methu mynd at y goeden ac roedd rhaid clirio'r tyfiant yma cyn gosod y cynfasau. Mae defaid yn bwyta'r canghennau is yn y cae, ond heb wneud difrod arall i'r goeden.

Weithiau, mae ceffyl cyfeillgar yn y cae, sef Horsey, ond dydy o ddim yn hoffi dail morwydd. Un mis Medi roeddwn i'n cropian o dan y goeden i hel ffrwythau oddi ar y cynfasau, a sylweddolais 'mod i'n gallu sefyll ger y boncyff. Roedd Horsey yn gwylio hyn i gyd ac yn ddiweddarach fe'i gwelais yn sefyll yn y cysgod ger y boncyff. Doeddwn i ddim yn hapus o gwbl, a dweud y lleia, oherwydd roedd wedi sathru'r cynfasau i gyd, wedi taro'r briciau o'u lle, a daeth cynaeafu ffrwyth o dan y rhan hon o'r goeden i ben am weddill y tymor!



# Y forwydden: parhad

Yn ystod y tymor, mae eirin morwydd yn cael eu bwyta'n ffresh, mewn salad ffrwythau fel arfer. Maen nhw'n arbennig o flasus yn gymysg â mwyar duon. Mae'r forwydden yn rhoi llawer o ffrwythau, ac felly dwi'n rhewi'r aeron sy'n weddill ar unwaith. Bydd hyd yn oed y rheini â gwawr goch yn rhewi'n iawn ac mae'n bosib eu rhoi mewn salad ar ôl iddyn nhw ddadmer. Dydy'r ffrwythau ddim yn teithio'n dda a bydd aeron sydd mewn cynwysyddion agored neu wedi'u cau yn datblygu llwydni, er ei bod hi'n bosib eu stiwio heb effeithio ar eu blas.

Mae un o'n cymdogion hefyd wedi plannu morwydden, ond yr unig un arall yn y cyffiniau yw honno ar dir Castell Rhuthun.

*Keith Lester*

*Cyhoeddwyd yr erthygl hon yn wreiddiol yng nghylchlythyr Grŵp Ffrwythau'r RHS, mis Mehefin 2025. Diolch yn fawr i Keith am ei rhannu â ni.*


TY CEFFYL BACH

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**




# Rysáit

## Torth fanana a chnau Ffrengig

**Cynhwysion**

225g/9 owns blawd codi
100g/3 owns menyn, wedi'i dorri'n ddarnau bach
75g/2¾ owns siwgr caster
125g/4½ owns cnau Ffrengig, wedi'u torri'n fras
2 fanana maint canolig, wedi'u stwnsio'n fras
175g/6 owns syltanas neu resins
2 wy, wedi'u curo'n ysgafn

**Dull**

Irwch tun torth 2 bwys a rhowch bapur pobi ar ei waelod.
Hidlwch y blawd i bowlen gymysgu.
Rhwbiwch y menyn i'r blawd nes y bydd yn debyg i friwsion bara.
Ychwanegwch y siwgr, y cnau Ffrengig, y ffrwyth sych, y bananas a'r wyau at y cynhwysion sych.
Cymysgwch y cyfan nes y bydd yn diferu'n araf oddi ar lwy.
Rhowch y cymysgedd yn y tun rydych chi wedi'i baratoi a'i lefelu gyda chyllell.
Pobwch y gacen mewn popty 160 °C/325 °F/ Nwy Marc 3 am 45–60 munud.
I weld a ydy'r dorth yn barod, rhowch sgiwer metel i mewn i ganol y dorth, ac os daw allan yn lân, mae'n barod.
Mae'n cadw'n dda am ychydig ddyddiau mewn tun.

*Edith Hughes*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan

Caiff 2 Medi 1945 ei gydnabod yn ddyddiad swyddogol diwedd yr Ail Ryfel Byd. Roedd yr Almaen eisoes wedi ildio ar 7 Mai (diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop), gan ddod â'r rhyfel yn Ewrop i ben. Ond wnaeth Ymerawdwr Japan ddim derbyn telerau ildio tan 15 Awst, dyddiad Buddugoliaeth yn Japan. Ond oherwydd y gwahaniaeth mewn amser ac arafwch teithio ar y pryd, bythefnos yn ddiweddarach y cafodd y dogfennau ildio swyddogol eu llofnodi ar yr *USS Missouri* ym Mae Tokyo.

Mae aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yn parhau â'r gwaith o grynhoi gwybodaeth am brofiadau pobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn y ddau bentre, yn ogystal â phrofiadau sy'n byw yn ein plith erbyn hyn ond ag atgofion o leoedd eraill. Y bwriad yw cyhoeddi'r deunydd fel llyfr yn y dyfodol, ond mae swmp y gwaith sydd eisoes wedi'i gasglu, yr ymchwil mae'n rhaid ei wneud eto, a'r angen i sicrhau bod y llyfr yn ddwyieithog, yn achosi oedi i'r dyddiad cyhoeddi.

I roi blas i chi ar yr hyn fydd yn dilyn, byddwn yn darparu straeon unigol i'w hargraffu yn y Llais o bryd i'w gilydd. Yn y rhifyn hwn rydyn ni'n canolbwyntio ar Paul a Jean Grange a'u hatgofion nhw am gyfnod y rhyfel.

Cafodd y ddau ohonom ein geni yn y 1930au a'n dwyn i fyny yn Swydd Hertford, tua 25 milltir i'r gogledd o Lundain. Roedd 10 milltir rhwng ein cartrefi, felly dim ond yn ddiweddarach wnaethon ni gyfarfod a phriodi. Hyd at y 1960au, sir wledig fawr oedd Swydd Hertford – yn wahanol i'r dyddiau hyn, lle mae hi'n ardal i'r cymudwyr. Mae Jean yn unig blentyn, ac mae gan Paul chwaer a brawd iau.

Er mor ifanc roedden ni ar y pryd, mae gan y ddau ohonom atgofion y Dydd Sul heulog ym Medi 1939, o'n rhieni'n gwrando'n astud ar Neville Chamberlain, y Prif Weinidog yn dweud ein bod ni'n mynd i ryfel yn erbyn yr Almaen.



Doedden ni ddim yn ddigon hen i ddeall arwyddocâd hyn yn llawn, ond roedd golwg ddwys ar wynebau'n rhieni yn cyfleu newyddion drwg. Roedd ein hen ffordd o fyw yn debygol o gael ei newid am byth.




Yn ddiamau, bu'r Ail Ryfel Byd yn gyfrifol am newid cymdeithasol sylweddol. Cyn y rhyfel, ystyriwyd mai lle'r ferch oedd y cartref, ond mi ddangoson nhw eu bod yn medru ymdopi ag unrhyw dasg oedd yn cael ei gwneud gan ddynion cyn hynny – er eu bod yn cael eu talu'n llai (roedd rhai eithriadau). At hynny, roedd y rhan fwyaf o'r merched yn dal yn gyfrifol am redeg y cartref. Pan ddaeth y rhyfel i ben, roedd disgwyl iddyn nhw roi'r lle blaenllaw yn ôl i'r dynion a dychwelyd i fywyd teuluol – bu rhai'n gyndyn iawn o wneud hyn

am eu bod wedi sefydlu cyfeillgarwch â chyd-weithwyr a chynyddu mewn hunan hyder.

Roedd Buddugoliaeth yn Ewrop ym Mai 1945 yn adeg o ddathlu mawr, ac ryden ni'n cofio'n iawn y partïon strydoedd a gerddi pentrefi. O'r diwedd, roedd teuluoedd yn cael croesawu eu plant yn ôl wedi'r mudo, a'r tadau a'r meibion mewn oed oedd wedi eu rhyddhau o'r fyddin. Roedd eitemau bwyd fel jelis, *blancmanges*, tuniau ffrwythau, cynhwysion gwneud cacennau a threiffls, yn ymddangos o'r dirgel – yn ôl pob tebyg wedi eu casglu'n ofalus ar hyd y blynyddoedd erbyn achlysur fel hwn. Roedd baneri a fflagiau'r undeb ym mhobman. Cyneuwyd coelcerthi. Roedd y tafarndai'n gwneud arian fel slecs, a'r pianos yn cael eu gwthio tu allan ar gyfer y canu a'r dawnsio. Roedd pawb wedi ymlacio, ac roedd hi'n amser hapus a chofiadwy i bawb bron. Er hynny, er bod Buddugoliaeth yn Ewrop wedi ei sicrhau ym Mai 1945, tueddwyd i anghofio bod y frwydr yn erbyn y Japaneaid yn parhau. Aeth y frwydr hon ymlaen hyd at Awst y flwyddyn honno, ac mae rhai o'r hen filwyr fu'n ymladd yn Burma yn dal dig am fod hyn yn tueddu i gael ei anghofio. Carcharwyd cymydog i Paul yn Japan. Bu'n garcharor rhyfel am flynyddoedd yno a dioddef yn enbyd – daeth adre' yn y diwedd mewn cyflwr truenus iawn. Fe ddathlwyd Diwrnod BJ (*VJ)* pan ildiodd y Japaneaid o'r diwedd ar ôl i'r Americanwyr ollwng y bom atomig. Eto, dyden ni ddim yn cofio cymaint o ddathliadau y tro hwnnw ag oedd adeg BE.

Yn ystod y rhyfel, roedd y gemau pêl-droed yn dal i gael eu chwarae, ond ar raddfa ranbarthol. Mi gafodd nifer o dimau broblemau'n cwblhau eu gemau gan fod chwaraewyr wedi eu galw i wasanaeth milwrol. Bu ailddechrau'r gynghrair bêl-droed a gemau'r Cwpan Pêl-droed yn gyfraniad mawr iawn tuag at godi morâl y wlad ar ôl y rhyfel.

Bu cynnydd sylweddol mewn priodasau ar ddechrau'r rhyfel, ond roedd yr aduniad pan ddôi'r milwyr adref wedi misoedd neu flynyddoedd i ffwrdd ddim yn baradwys o bell ffordd. Roedd hi'n anochel yn y cyfamser bod sawl perthynas tu allan i briodas wedi datblygu. Roedd y gŵr yn ddieithryn bron ar ôl cyrraedd adref, a doedd dim llawer o gof gan y plant am eu tad. O ganlyniad, bu cynnydd mewn ysgariadau. Ond, ar y cyfan, setlodd y rhan fwyaf o barau priod i fyw eu bywyd priodasol, a'r raddfa geni'n cyrraedd uchafbwynt – dyma genhedlaeth 'to'r twf'(*y boom-babies*).

Dechreuwyd ailgydio mewn bywyd arferol wrth i bobl ddechrau ar y gwaith o ailadeiladu darnau o Brydain oedd wedi eu dryllio. Roedd effeithiau'r rhyfel yn dal i'w gweld ymhell i ganol y 1960au – gallech weld hen safleoedd bomio mewn trefi a dinasoedd wedi eu gorchuddio â llysiau'r Santes Fair. Roedd dogni'n parhau a bywyd yn galed, a gaeaf llym 1947 yn gwneud bywyd yn galetach. Roedd prinder glo a chyfyngwyd ar y cyflenwadau hyd yn oed i bwerdai. Roedd aros yn fyw a chadw'n gynnes yn sialens ynddo'i hun, ond stori arall ydi honno.




*Jean a Paul Grange*

# Hanesion Hazel

Dylai mis Medi fod yn ddechrau tymor yr hydref, ond eleni, rwy'n teimlo bod y ffin rhwng tymhorau wedi bod yn aneglur. Dechreuodd y gwanwyn yn gynharach o lawer, a'r haf yn un hir a phoeth gyda chyfnod hir heb law. Mae hyn wedi effeithio arnon ni i gyd, yn enwedig ar ffermwyr a phobl sy'n tyfu ffrwythau a llysiau. Pwy a ŵyr beth gawn ni'r mis yma? Bydd tymor yr hydref yn dechrau'n swyddogol ar 22 Medi, yn ôl y calendr seryddol, ond diffiniad y calendr meteorolegol o ddechrau tymor yr hydref yw 1 Medi. Wrth i ni fynd trwy fis Medi, bydd y dyddiau'n fyrrach a'r nosweithiau'n hirach. Bydd yr haul yn machlud ar 1 Medi tua 20.00, ond erbyn 30 Medi bydd yn machlud ar 18:52, a'r haul yn codi am 06.23 a 07.13. I'r rhai sy'n codi'n gynnar yn y bore, bydd y gwahaniaeth yn amlwg iawn.



Mae tywydd eleni wedi drysu ein bywyd gwyllt a'n planhigion hefyd. Ar 10 Awst mi ges i hyd i saffrwm yr hydref yn blodeuo yn fy ngardd; mis Medi hyd at fis Tachwedd yw adeg arferol y rhain i flodeuo. Mae mwyar duon yn barod i'w hel ers canol mis Awst ac roedd fy mafon yr hydref yn barod yr un adeg â'r eirin, sy'n anarferol iawn. Mae'r coed hefyd wedi dechrau colli eu dail, sydd wedi newid eu lliw hefyd, gan greu 'hydref ffug'. Amcan planhigion mewn bywyd yw tyfu ac atgenhedlu. Gan eu bod o dan bwysau oherwydd y tymheredd poeth a diffyg glaw, maen nhw wedi aeddfedu'n gynharach, wedi creu hadau, ac erbyn hyn wedi gorffen y cylch hwnnw fel ein bod ni'n gweld y ffrwyth yn aeddfedu'n gynnar a'r dail yn disgyn. Pan mae hyn yn digwydd, mae ein coed yn ceisio goroesi gan daflu eu dail i arbed dŵr. Mae rhai pobl yn awgrymu ei bod hi'n flwyddyn *mast* – ffenomenon naturiol pan mae coed a llwyni'n cynhyrchu cnwd anferth o ffrwythau neu gnau i gyd ar yr un pryd. Roedd y flwyddyn *mast* ddiwetha yn 2020, ond dydw i ddim yn meddwl mai dyma sy'n digwydd eleni. Ai dyma fydd yn digwydd yn arferol? Mae'r Gymdeithas Feteorolegol Frenhinol wedi dweud mai'r gwanwyn yw'r tymor sy'n cynhesu gyflymaf, gyda chynnydd o 1.8 gradd mewn tymheredd ar gyfartaledd ers 1970.

Mae'r llain lysiau wedi bod yn anwadal, gyda phlanhigion yn cynhyrchu cnwd yn gynharach, a rhai wedi 'rhedeg'. Roedd gan y betys roeddwn i wedi'u plannu, *Boltardy* sydd i fod i beidio â rhedeg, ychydig o blanhigion a oedd wedi rhedeg. Mae betysen sydd wedi rhedeg yn cynhyrchu coesyn blodyn sy'n tyfu'n gyflym ac yn uchel, mae blodau bach iawn ar ei brig, ac mae'n 'brennaidd' iawn. Dydy'r erchyllbethau hyn ddim yn cael eu gwastraffu acw gan fod yr ieir wrth eu boddau gyda nhw. Ac wrth gwrs, mae lindys y pili pala gwyn wedi bod yn boen, yn bwyta fy mlodfresychau ifanc. Fe brynais ychydig o ddarnau o beipiau dŵr o Ocsiwn Rhuthun a gydag ychydig o rwydi mân, mi wnes i *polytunnel* bach i warchod y llysiau gwyrdd. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac mi wna i hyn yn bendant eto'r flwyddyn nesa gyda blodfresych yr haf.

Ond fe aeth y pili palod gwyn yn eu blaenau, gan ddodwy eu hwyau ar y maip yn lle hynny. Yna, bwytodd y lindys bach y dail ar ben y maip gan adael dim ond y maip o dan y pridd. Rwy'n gadael y rhain am gymaint o amser ag sy'n bosib gan fy mod yn eu rhoi fel tamaid blasus i'r ieir eu bwyta yn ystod y gaeaf, os na fydd y cwningod wedi'u bwyta

Hazel

## ARDDANGOSFA
## CWILTWYR DYFFRYN CLWYD
**DYDD SADWRN A DYDD SUL,**
**6 A 7 MEDI**
**NEUADD Y DREF, DINBYCH**
**10AM–4PM**

Mae Cwiltwyr Dyffryn Clwyd yn cyfarfod ar bedwerydd dydd Mercher y mis yn Eirianfa, Dinbych. Mae gennym tua 70 o aelodau ac yn eu plith mae nifer o gwiltwyr talentog sy'n rhannu'u doniau'n hael â chwiltwyr llai galluog fel fi.

Heblaw am ein cyfarfod blynyddol, mae siaradwyr gwadd yn dod i bob cyfarfod. Bydd rhai ohonyn nhw'n dysgu yn ein gweithdai sy'n digwydd bedair gwaith y flwyddyn. Byddwn ni hefyd yn gwneud cwiltiau Linus ac yn cael dyddiau gwnïo.

Bydd arddangosfa o waith yr aelodau yn Neuadd y Dref, Dinbych ar 6 a 7 Medi o 10 y bore tan 4 y prynhawn. Bydd dau gwilt wedi'u gwneud gan yr aelodau i gyd ar gael i'w hennill mewn raffl, a chyfle hefyd i brynu nwyddau pwytho a defnyddiau o ddwy stondin. Bydd lluniaeth ysgafn ar werth hefyd.

Dewch i weld ein harddangosfa wych – pwy a ŵyr, efallai y bydd yn eich ysbrydoli chi i ymuno â ni.

*Carolyn Langford-Jones*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

## MACMILLAN CANCER SUPPORT
Galwch heibio am baned a chacen a chyfrannwch at Macmillan
**Dydd Gwener, 12 Medi, 10am-canol dydd**
Yn yr Ystafelloedd Coco
Croeso cynnes i bawb!

## BORE COFFI
**Dydd Sadwrn, 20 Medi, 10:00–11:15 yn Neuadd y Pentre**
**Yr elw at Eisteddfod Llandyrnog**
**Raffl a stondin cynnyrch cartref – derbynnir cyfraniadau at y stondin yn ddiolchgar**


J & G
TYRE SERVICES

CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS
Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ
01745 817676
07775 717602

# CPD LLANDYRNOG YN 50 OED

Mae'r cyfnod cyn dechrau'r tymor wedi bod yn un cyffrous iawn a dydyn ni ddim wedi gallu dweud hyn ers sawl blwyddyn. Mae'r clwb wedi bod yn cael cryn drafferth yn ystod y tymhorau diwethaf, felly mae'n wych gweld cymaint o agwedd gadarnhaol o gwmpas y clwb yn ddiweddar, yn enwedig gan ei bod hi'n dymor dathlu'r clwb yn hanner cant oed! Does dim llawer o glybiau'n gallu dweud eu bod wedi para mor hir â hyn, felly diolch o galon i bawb sydd wedi bod yn rhan o gadw'r clwb gwych yma'n fyw!

Mae ein pwyllgor bach ond ymroddgar wedi bod yn gweithio'n ddiflino cyn yr ymgyrch newydd. Trwy benodi ein rheolwr newydd, Sion Morris a'i dîm rheoli, mae gweld y sgwad newydd o chwaraewyr yn datblygu wedi bod yn wych.

Mae'r cae wedi cael ei atgyweirio, a hen bryd hefyd. Mae'r ddwy loches – *dugout* – wedi cael bywyd newydd ac mae'r stand yn ôl i'w hen ogoniant, felly dewch i ni drio'i lenwi o y tymor yma! Rydyn ni hefyd wedi gosod goleuadau newydd, diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Chwaraeon Lleol am ei help gyda'r rhain.

Mae teirgwaith yn fwy o fyrddau hysbysebu o gwmpas y cae rŵan – ffordd weledol wych o ddangos faint o gefnogaeth a pharch mae ein clwb bach yn ei gael. Diolch o galon i'n pwyllgor a'n noddwyr am eu haelioni a'u help, oherwydd heb hyn, byddai'r cyfan wedi bod yn amhosib. Gobeithiwn y gorau am dymor gwych!

*Matthew Lewis,*
*Is-gadeirydd*

19 75
LLANDYRNOG
UNITED FOOTBALL CLUB

# Tuesday Club

Rhoddodd Stuart Pearson, ein siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Awst sgwrs hynod ddiddorol am ei yrfa. Mae Stuart wedi dychwelyd i'r pentre i fyw ar ôl gyrfa gyffrous iawn.

Ei ddiddordeb mawr cyntaf oedd ffermio, ond pylodd y diddordeb hwnnw'n fuan. Wedyn newidiodd ei fywyd yn gyfan gwbl wrth iddo gael ei benodi'n oruchwyliwr cynaeafu ar ystâd tyfu siwgr yn Nigeria i gwmni Booker McConnell, cyd-sylfaenwyr y wobr Booker ar gyfer llenyddiaeth.

Treuliodd weddill ei yrfa yn gweithio ar Ynysoedd y Gwynt, ac yn Senegal, Nigeria, India, Bangladesh a Rwanda. Roedd ei waith yn ymwneud â datblygu tir a chynaeafu, mecaneiddio, dyfrhau a chadwraeth tir. Gwelodd sawl erchyllter yn rhyfeloedd cartref Biafra a Nigeria.

Diolchwyd i Stuart am sgwrs ddiddorol iawn a gweinwyd lluniaeth ysgafn. Tynnwyd y raffl am daleb o siop y pentre ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 17 Medi.

Mike Neumann
Printers Ltd

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



01745 814067
07766 807498

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk